




BRO MORGANNWG
CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD
CYTUNDEB CYFLAWNI
2021-2036
Ionawr 2026



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD BRO MORGANNWG 2021-2036

CYTUNDEB CYFLAWNI DIWYGIEDIG

HYDREF 2025

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL YN SAESNEG AC MEWN FFORMATAU ERAILL AR
GAIS E.E. FFONT MWY

TABL CYNNWYS

Tabl Ffigurau	4
Rhestr Tablau.....	4
1. Cyflwyniad.....	1
1.2. Beth yw Cytundeb Cyflawni?	1
1.3. Paratoi'r CDLI Newydd	3
1.4. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).....	4
1.5. Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd	5
1.6. Asesiadau Sylfaen Dystiolaeth.....	6
1.7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD)	7
1.8. Profion Cadernid	8
1.9. Canllaw Cynllunio Atodol	9
1.10. Gweithio Cydweithredol	9
1.11. Rheoli risg	10
1.12. Adnoddau	10
1.13. Ffioedd Ymgynghorwyr a Ragwelir	11
1.14. COVID-19.....	11
1.15. Monitro ac Adolygu	12
2. Cynllun Cynnwys y Gymuned.....	13
2.1. Cyflwyniad	13
2.2. Egwyddorion y Strategaeth Gyfranogi	13
2.3. Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?	14
2.4. Sut byddwn ni'n eich cynnwys chi.....	18
2.5. Yr hyn a ddisgwyliwn gennych chi – Disgwyliadau Rhanddeiliaid	20
2.6. Adeiladu Cydsyniad	20
2.7. Ymdrin â Sylwadau	20
2.8. Sylwadau Hwyr.....	21
2.9. Argaeledd Dogfennau	21
2.10. Y Gymraeg	21
2.11. Amserlen a Dulliau Ymgysylltu.....	22
3. Amserlen.....	24
3.2. Camau allweddol paratoi'r cynllun a chyfleoedd i gymryd rhan	25
4. Atodiadau.....	29
4.1. Atodiad 1: Rhestr o Gyrrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol.....	29
4.2. Atodiad 2: Crynodeb o gyfranogiad y gymuned yng Nghamau Allweddol y CDLIN	36
4.3. Atodiad 3 - Amserlen fanwl y CDLIN.....	47
4.4. Atodiad 4: Rheoli Risg.....	48

4.5.	Atodiad 5 – Rhestr Termau	51
4.6.	Atodiad 6 – Llythr gan lywodraeth Cymru yn cadarnhau cytundeb i amserlen ddiwygiedig (Tachwedd 2023).....	52

TABL FFIGURAU

Ffigur 1: 7 Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	7
Ffigur 2: Y Pum Ffordd o Weithio.....	8
Ffigur 3: Crynodeb o broses y CDLIN, gan gynnwys Pwyntiau Ymgysylltu ac Adborth	23

RHESTR TABLAU

Tabl 1: Amserlen Gryno	24
------------------------------	----

1. CYFLWYNIAD

- 1.1.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynllunio Tref a Gwlad (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, yn gofyn i Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor) baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal weinyddol, gan osod strategaeth y Cyngor ar gyfer defnydd a datblygiad tir yn y dyfodol.
- 1.1.2. Mabwysiadwyd CDLI Bro Morgannwg 2011 - 2026 ar 28 Mehefin 2017. Mae'r CDLI yn nodi fframwaith polisi cynllunio'r Cyngor ar gyfer datblygiad a defnydd tir yn yr awdurdod. Mae'n sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a rhesymegol ac yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o dir ac adnoddau cyfyngedig eraill.
- 1.1.3. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 Chwefror 2024) (PCC) yn nodi mai'r cynlluniau datblygu diweddaraf yw sail y system gynllunio ac mae Adran 69 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gynnal adolygiad o'u CDLI "ar yr adegau y mae'r Cynulliad yn rhagnodi" a rhaid iddynt gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar ganfyddiadau eu hadolygiad.
- 1.1.4. Mae adran 41 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) yn cyfarwyddo bod rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol gychwyn adolygiad llawn o'u CDLI bob pedair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu yn y lle cyntaf, neu'n gynt os yw canfyddiadau'r Adroddiad Monitro Blyneddol yn dangos pryderon sylweddol ynghylch gweithredu'r Cynllun.
- 1.1.5. Cynhaliwyd adolygiad o'r CDLI ac mae'r canfyddiadau wedi'u nodi yn yr Adroddiad Adolygu (AA). Mae'r AA yn ystyried y newidiadau cyd-destunol, deddfwriaethol a pholisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu ac yn archwilio perfformiad y Cynllun o ran pa mor dda y mae'r polisiâu wedi cyflawni gweledigaeth, nodau a strategaeth y Cynllun. Mae'r AA hefyd yn ystyried y math o broses adolygu i'w dilyn ac yn dod i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal adolygiad llawn yn dilyn y gweithdrefnau priodol.
- 1.1.6. Y CDLI mabwysiedig yw'r fframwaith polisi cynllunio presennol o hyd ar gyfer penderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio ym Mro Morgannwg tra bo'r CDLI newydd yn cael ei baratoi. Y cam cyntaf wrth baratoi CDLI Newydd (CDLIN) yw cynhyrchu Cytundeb Cyflawni.

1.2. BETH YW CYTUNDEB CYFLAWNI?

- 1.2.1. Mae paratoi Cytundeb Cyflawni (CC) yn ofyniad allweddol wrth ddiwygio CDLI. Wedi'i baratoi a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor ac yna gan Lywodraeth Cymru (LIC), mae'r CC yn nodi dechrau ffurfiol y broses o baratoi/diwygio'r cynllun ac mae'n ddatganiad o ymrwymiad y Cyngor i baratoi CDLI.
- 1.2.2. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd) yn rhagnodi ffurf a chynnwys y CDLI ac yn gwneud

darpariaeth i'r weithdrefn gael ei dilyn wrth baratoi gan gynnwys paratoi'r CC (Rheoliad 9).

- 1.2.3. Mae'r CC yn offeryn rheoli prosiectau hanfodol sy'n nodi'r prosesau o baratoi cynlluniau, gan egluro'r cyfleoedd a'r dulliau ymgysylltu sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn nodi'r adnoddau a'r amserlenni dan sylw. Mae'r CC yn nodi pryd a sut y gall rhanddeiliaid, partïon â diddordeb a'r cyhoedd gymryd rhan a chyfrannu at y broses o baratoi/diwygio'r cynllun. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd CDLI Newydd Bro Morgannwg yn cwmpasu'r cyfnod 2021-2036
- 1.2.4. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn cyfarwyddo bod rhaid i'r Cytundeb Cyflawni gynnwys y canlynol:
- **Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)** – mae'r CCG yn cynnwys manylion am sut a phryd y mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid statudol ac anstatudol, partneriaid ac aelodau o'r cyhoedd drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Mae'r CCG yn rhoi manylion am sut y bydd y Cyngor yn ymgysylltu a sut y bydd yn ymateb i sylwadau a dderbynnir a sut y gallai'r sylwadau hyn lywio camau dilynol paratoi'r cynllun. Mae CCG y Cyngor wedi'i gynnwys yn Adran 2.
 - **Amserlen** – Mae'r amserlen yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r CDLI a'r dogfennau cysylltiedig. Mae'n darparu gwybodaeth am wahanol gamau proses y CDLI gan gynnwys paratoi a chyhoeddi'r adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd, Adroddiadau Monitro Blyneddol a Chanllaw Cynllunio Atodol (CCA). Nodir yr amserlen fanwl ar gyfer y CDLI gan gynnwys y broses ymgynghori ar gyfer cyfnodau allweddol yn Atodiad 3.
- 1.2.5. Paratowyd y CC yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd); a
 - Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3, Mawrth 2020).
- 1.2.6. Roedd fersiwn drafft y Cytundeb Cyflawni hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng dydd Gwener 5 Tachwedd 2021 a dydd Llun 31 Ionawr 2022. Ar ôl ystyried y sylwadau a gafwyd, cafodd y CC diwygiedig terfynol ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad CDLI 9 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflawni'r Cyngor yn ffurfiol ar 4 Mai, 2022.
- 1.2.7. Gwnaed cynnydd sylweddol ar y cynllun, gan gynnwys ar y Materion, y Weledigaeth a'r Amcanion, yr Opsiynau Twf a Gofodol, yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol, a datblygu sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, fel rhan o flaenlwytho'r sylfaen dystiolaeth, bu angen ymgysylltu ymhellach â hyrwyddwyr safleoedd allweddol sydd wedi achosi oedi wrth baratoi Strategaeth a Ffefrir Ddrafft y CDLIN

ac mae hyn wedi arwain at y Cyngor yn methu â chyflawni'r amserlen fel y nodir yn y CC cymeradwy. Yn unol â'r rheoliadau, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru gymeradwyo estyniad i amserlen y CDLIN, a gadarnhawyd ar 21 Tachwedd 2023, ac mae'r CC wedi'i ddiweddarau yn unol â hynny. Mae llythyr cymeradwyo Llywodraeth Cymru i ddiwygiadau Tachwedd 2023 yn Atodiad 6.

- 1.2.8. Roedd Strategaeth a Ffefrir y CDLIN yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 14 Chwefror 2024. Fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir, nodwyd 5 safle tai allweddol newydd wedi'u lleoli yng ngogledd-ddwyrain y Barri, ac yn Ninas Powys, y Rhws a Sain Tathan (2 safle).
- 1.2.9. Cynigiwyd y safle allweddol fwyaf, sef tir yng ngogledd-ddwyrain y Barri, yn wreiddiol drwy'r broses safleoedd ymgeisiol gan adeiladwr tai cenedlaethol ac fe'i nodwyd yn y Strategaeth a Ffefrir fel un sy'n gallu darparu hyd at 900 o unedau dros gyfnod y cynllun hyd at 2036, gyda'r potensial ar gyfer 600 o unedau pellach mewn cyfnodau cynllun dilynol. Trwy drafodaethau gyda hyrwyddwyr presennol y safle, daeth yn amlwg y byddai darparu'r safle'n annhebygol oherwydd materion perchnogaeth tir. Penderfynwyd felly y dylid tynnu'r safle o'r Cynllun a chanfod safle neu safleoedd amgen i wneud iawn am y diffyg tai.
- 1.2.10. Mae'r angen i ddod o hyd i safle neu safleoedd amgen, a'r angen i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar unrhyw safle/safleoedd a nodir (fel y digwyddodd gyda'r Safleoedd Allweddol eraill yn y Strategaeth a Ffefrir) wedi achosi oedi sylweddol i amserlen gymeradwy'r CDLIN ac angen i adolygu amserlen gymeradwy'r CDLIN eto fel ei bod yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn fwy cywir.
- 1.2.11. Cafodd y CC diwygiedig terfynol ei adrodd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo yn unol â Rheoliad CDLI 9 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Gytundeb Cyflawni diwygiedig y Cyngor yn ffurfiol ar 13 Ionawr 2026.
- 1.2.12. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gael ar wefan y Cyngor a gellir ei archwilio ym mhrif swyddfa'r Cyngor yn stood oriau swyddfa arferol yn unol â Rheoliad CDLI 10.

1.3. PARATOI'R CDLL NEWYDD

- 1.3.1. Wrth baratoi'r CDLIN ar gyfer Bro Morgannwg, ac yn unol â Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Rhifyn 3, 2020), bydd y Cyngor yn anelu at gyflawni'r canlyniadau allweddol canlynol:
 1. Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o ansawdd sy'n seiliedig ar y Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Creu Lleoedd Cynaliadwy, gan gyd-fynd â pholisi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'u hintegreiddio ag Arfarniad Cynaliadwyedd(AC)/AAS/ARhC, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

2. Bydd wedi ei seilio'n gadarn ar gyfranogiad cynnar, effeithiol ac ystyrlon gan y gymuned er mwyn deall ac ystyried ystod eang o safbwyntiau, gyda'r nod o greu consensws eang ar strategaeth ofodol, polisïau a chynigion.
 3. Bydd yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth Bro Morgannwg gan gynnwys y cysylltiadau gweithredol ag ardaloedd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol.
 4. Bydd yn nodedig drwy gael cynlluniau sy'n nodi'n glir sut y bydd Bro Morgannwg yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
 5. Bydd yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio amcanestyniadau hinsawdd diweddaraf y Deyrnas Unedig, data asesu perygl llifogydd a bregusrwydd) a chefnogi'r newid i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a chyllidebau lleihau carbon diweddaraf fel y nodir yn Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2). Rhaid cadw at egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
 6. Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
 7. Cyflawni'r hyn a fwriedir drwy gynlluniau ymarferol a hyfyw, gan ystyried y gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau eraill yn y farchnad.
 8. Bod yn gynhyrchiol ac yn ymatebol, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf a'r hyblygrwydd i newid.
- 1.3.2. Bydd y CDLIN yn cael ei baratoi gan ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth, polisïau a mentrau eraill ar lefel Ewropeaidd, genedlaethol, ranbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Lles Lleol (CLILI) 'Ein Bro - Ein Dyfodol' yn arbennig o bwysig ar lefel leol. Mae'r CLILI yn ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg ac mae ganddo gysylltiadau clir â'r CDLIN lle mae hwnnw'n ymwneud â chynllunio defnydd tir.

1.4. ARFARNIAD CYNALIADWYEDD INTEGREDIG (ACI) YN CYNNWYS ASESIAD AMGYLCHEDDOL STRATEGOL (AAS) AC ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD (ARHC)

- 1.4.1. Mae Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, (ACI) sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), yn un o ofynion statudol paratoi CDLI er mwyn asesu goblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Defnyddir proses yr AC/AAS er mwyn sicrhau bod polisïau yn y CDLI yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn ystyried effeithiau sylweddol y cynllun ar yr amgylchedd. Bu'r AC, yn cynnwys yr AAS, yn broses ailadroddol drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLI mabwysiedig ac adlewyrchir hyn yng nghynigion a pholisïau'r Cynllun
- 1.4.2. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried gwerth a chyfleoedd dull asesu integredig o baratoi cynllun datblygu lle mae elfennau statudol ac allweddol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Cydraddoldeb, y Gymraeg, Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI) a

Deddf yr Amgylchedd (adran 6) (lle bo'n berthnasol) yn cael eu cyfuno'n un Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI). Mae'r dull hwn yn galluogi asesiad mwy tryloyw, cyfannol a chyffredinol o oblygiadau cynaliadwyedd opsiynau twf, amcanion, polisïau a chynigion. Mae'r broses ACI yn cydreded â'r broses o lunio'r cynllun ac yn rhan ailadroddol o baratoi'r cynllun.

1.4.3. Bydd yr ACI (sy'n ymgorffori'r AAS) yn cynnwys y camau canlynol:

- **Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** – mae hwn yn nodi'r materion cynaliadwyedd presennol ym Mro Morgannwg ac yn darparu gwybodaeth sylfaenol ynghyd ag adolygiad o gynlluniau, polisïau, rhaglenni a strategaethau. Bydd dangosyddion ac amcanion presennol yr AC yn cael eu diwygio a'u diweddarau yn ôl yr angen. Bydd Fframwaith Cynaliadwyedd diwygiedig yn cael ei gynhyrchu.
- **Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol (AACI)** - mae hwn yn rhagweld ac yn gwerthuso effeithiau opsiynau'r CDLI, y strategaeth ofodol a pholisïau strategol ar yr amcanion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd fel y'u nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu. Bydd yr AACI yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd â'r Strategaeth a Ffefirir a'i ddiweddarau pan gaiff y Cynllun Adneuo ei baratoi.
- **Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Terfynol (AAC)** - Bydd hwn yn dwyn ynghyd holl elfennau'r AACI ac yn ystyried argymhellion rhwymol yr Arolygydd Cynllunio. Cyhoeddir yr AACI Terfynol ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd.
- **Datganiad Mabwysiadu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** - bydd hwn yn cael ei gyhoeddi i egluro sut yr ystyriwyd yr ystyriaethau cynaliadwyedd a'r Asesiad Cynaliadwyedd wrth gynhyrchu'r CDLIN.

1.4.4. Mae ymgynghoriad ar gamau allweddol yr ACI/AAS wedi'i gynnwys o fewn yr amserlen ar gyfer paratoi'r CDLI a'r CCG. Bydd canfyddiadau gwaith yr ACI/AAS yn cael eu dangos ar gamau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLIN. Bydd adroddiadau'n cael eu paratoi, ac ymgynghorir â rhanddeiliaid ochr yn ochr ag ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefirir ac ymgynghoriad ar y Cynllun ar Adnau. Bydd Adroddiad ACI Terfynol ynghyd â holl ddogfennau eraill y CDLI Newydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio. Ymgynghorir â chyrrff amgylcheddol statudol ar yr holl gamau y cyfeirir atynt uchod a bydd deialog barhaus ehangach gyda'r cyrrff hyn wrth i'r broses fynd rhagddi.

1.4.5. Yn ogystal â'r ACI, bydd y Cyngor yn cynnal Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y CDLI Newydd wrth iddo gael ei baratoi.

1.5. ARFARNIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD

1.5.1. Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn un o ofynion cyfreithiol y Gyfarwydddeb Cynefinoedd¹ ac mae'n ofynnol ar gyfer unrhyw Gynllun neu Raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle dynodedig Ewropeaidd naill ai ar ei ben ei hun, neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill. Yng

¹ Cyfarwydddeb y Cyngor 92/43/EEC ar 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a ffloera gwyllt

Nghymru, nodir y gofynion ar gyfer ARhC, gan gynnwys addasiadau arfaethedig i gynlluniau presennol, yn Rhan 6 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rhan 2 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

- 1.5.2. Mae proses yr ARhC yn dilyn cyfres o gamau; bydd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer y CDLIN, yn ôl yr angen, er mwyn bodloni gofynion y Rheoliadau:
- **Cam 1 - Sgrinio ar gyfer Effaith Sylweddol Tebygol:** penderfynu a yw'r CDLIN yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd.
 - **Cam 2 – Asesiad Priodol a Phrawf Cyfanrwydd:** Os yw'r Sgrinio ARhC yn nodi bod y CDLIN yn debygol o gael effeithiau sylweddol, bydd angen lefel arall o asesiad i ystyried a allai'r CDLIN gael effaith andwyol ar gyfanrwydd un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, o ystyried eu hamcanion cadwraeth sefydledig a'u statws cadwraeth. Os nodir y potensial ar gyfer effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle, dylai'r Asesiad Priodol hefyd ystyried mesurau lliniaru i reoli'r effeithiau a nodwyd, er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle; a
 - **Cam 3 a 4 – Ystyried Dewisiadau Amgen a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig:** Dim ond lle mae effeithiau sylweddol yn parhau ar ddiwedd Cam 2 y broses ARhC y mae angen ystyried dewisiadau amgen a Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig.
- 1.5.3. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi nad yw'n briodol integreiddio ARhC ag AC gan eu bod yn deillio o ofynion deddfwriaethol gwahanol; felly dylid cyhoeddi'r canfyddiadau ar wahân a'u dogfennu'n glir. Fodd bynnag, mae'n arfer da crynhoi canfyddiadau'r ARhC yn yr AC fel rhan o'i asesiad o'r effaith ar fioamrywiaeth.
- 1.5.4. Bydd y broses ARhC yn cael ei chynnal ar y cyd â'r ACI (gan ymgorffori AAS) er mwyn sicrhau dull integredig o asesu. Bwriedir i'r broses gydredeg â chynnydd y Cynllun ac y bydd yn rhan ailadroddol o'r CDLIN, a fydd yn cynnwys ystyried yr holl opsiynau polisi a safle sy'n dod i'r amlwg. Ymgynghorir â Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol proses yr ARhC.

1.6. ASESIAU SYLFAEN DYSTIOLAETH

- 1.6.1. Wrth gynnal yr adolygiad o'r CDLI bydd angen diweddarau'r sylfaen dystiolaeth a lywiodd y Cynllun presennol i ddeall gofynion defnydd tir Bro Morgannwg yn llawn ac i ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol a pholisi sydd wedi digwydd ers mabwysiadu'r cynllun e.e. Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 / Polisi Cynllunio Cymru 11. Rhagwelir y bydd angen yr astudiaethau / asesiadau canlynol fel rhan o broses y CDLIN:
- Amcanestyniadau Poblogaeth a Thai
 - Asesiad o Anghenion Tai Lleol
 - Asesiad Hyfywedd Tai Fforddiadwy
 - Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
 - Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy


- Arolwg o Ffiniau Aneddiadau
- Adolygiad o Dir Cyflogaeth
- Astudiaeth Manwerthu
- Asesiad Seilwaith Gwyrdd
- Asesiad Tirwedd
- Adolygiad Lletem Werdd
- Asesiad Mannau Agored
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy
- Asesiad Seilwaith
- Asesiad Strategol ar Ganlyniadau Llifogydd

1.6.2. Nid yw'r uchod yn rhestr ddiffiniol a gallai fod angen tystiolaeth ychwanegol wrth i'r broses o ddiwygio'r cynllun fynd rhagddi.

1.7. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (DLLCD)

1.7.1. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (DLICD) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 ac mae'n nodi saith nod llesiant y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio i'w cyflawni. Dangosir y saith nod llesiant isod:

Ffigur 1: 7 Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.7.2. Nod DLICD yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru o ran y saith nod llesiant a hefyd i nodi pum ffordd o weithio. Mae'r pum ffordd o weithio isod:

Ffigur 2: Y Pum Ffordd o Weithio



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.7.3. O ystyried mai datblygu cynaliadwy yw egwyddor sylfaenol graidd y CDLI (a'r AAS); mae cysylltiadau clir rhwng y CDLI a DLICD.
- 1.7.4. Fel un o ofynion y Ddeddf, rhaid paratoi Cynllun Lles Lleol (CLILI) ac mae Cynllun Llesiant Bro Morgannwg 2023-2028 yn ystyried lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr awdurdod a bydd ganddo gysylltiadau clir â'r CDLIN. Bydd DLICD a'r CLILI yn cael eu hystyried yn llawn drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLIN, a fydd yn dilyn y pum ffordd o weithio.

1.8. PROFION CADERNID

- 1.8.1. Mae 'cadernid' yn rhan annatod o'r system CDLlau ac mae'n egwyddor bwysig ar gyfer dangos a yw'r CDLI yn dangos barn dda ac y gellir ymddiried ynddo. Os gwelir nad yw'r CDLIN yn gadarn, yna bydd LIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd y camau angenrheidiol i unioni'r sefyllfa.
- 1.8.2. Bydd y CDLIN yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio. Penodir Arolygydd annibynnol gan Lywodraeth Cymru i gynnal yr Archwiliad hwn i benderfynu a yw'r Cynllun yn gadarn. Bydd yr Arolygydd yn asesu a yw'r gwaith o baratoi'r cynllun wedi'i wneud yn unol â gofynion gweithdrefnol cyfreithiol a rheoliadol ac yn cydymffurfio â'r CCG. Rhaid i'r Arolygydd hefyd benderfynu a

yw'r CDLIN yn bodloni'r tri phrawf² cadernid a nodir yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru. Y rhain yw:

- Prawf 1 – A yw'r cynllun yn addas? (h.y. a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?
- Prawf 2 – A yw'r Cynllun yn briodol? h.y. a yw'r Cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal y caiff ei defnyddio ynddi ac yng nghyd-destun y dystiolaeth a gesglir?
- Prawf 3 – A fydd y cynllun yn cyflawni? h.y. a yw'r cynllun yn debygol o fod yn effeithiol?

- 1.8.3. Bydd casgliadau'r Arolygydd yn gyfrwymol ac oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau sy'n ofynnol gan yr Arolygydd a mabwysiadu'r CDLIN o fewn yr amser a nodir.

1.9. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL

- 1.9.1. Yn ogystal â'r polisiâu sydd yn y CDLIN, gall y Cyngor hefyd gynhyrchu Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i ymhelaethu ar bolisi o fewn y CDLI i ddarparu eglurder ac i helpu i sicrhau ei fod yn cael ei gymhwyso'n effeithiol.
- 1.9.2. Mae'r gwaith o baratoi CCA yn anstatudol ac nid oes ganddo'r un statws â'r polisiâu o fewn y CDLIN. Fodd bynnag, yn ôl Llywodraeth Cymru gallai CCA fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar yr amod ei fod yn deillio o ac yn gyson â'r CDLI. Bydd y pwys a roddir iddo'n cynyddu os yw'n gyson â pholisiâu'r CDLI ac wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.
- 1.9.3. Gall CCA ymdrin ag ystod eang o bynciau megis cyngor dylunio, briffiau datblygu safle a dogfennau sy'n ymwneud â materion cynllunio penodol (e.e. tai fforddiadwy, estyniadau deiliaid tai, safonau amwynder ac ati). Mae'r Cyngor eisoes wedi cynhyrchu CCA sy'n berthnasol i'r CDLI mabwysiedig, a fydd yn cael ei adolygu fel rhan annatod o'r broses adolygu CDLI. Bydd unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ychwanegol y gallai fod angen i'r Cyngor eu cynhyrchu yn cael eu hystyried fel rhan o gam adneuo proses y CDLI a byddant yn cael eu paratoi yn unol â chanllawiau mabwysiedig y Cyngor i gynhyrchu CCA a Briffiau Datblygu, y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth gynhyrchu CCA.
- 1.9.4. Ni ellir mabwysiadu unrhyw ganllaw cynllunio atodol a baratowyd yn ystod proses y CDLIN yn ffurfiol tan ar ôl i adroddiad yr Arolygydd ar y CDLIN gael ei gyhoeddi.

1.10. GWEITHIO CYDWEITHREDOL

- 1.10.1. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried cyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd mwyaf posibl wrth gasglu tystiolaeth, ymgynghori a chydweithredu. Mae ystyried materion o'r fath yn ehangach yn rhoi Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn sefyllfa llawer cryfach

² Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Rhifyn 3 Mawrth 2020)

i ddatrys materion cynllunio ac adlewyrchu'n well sut mae pobl a busnesau'n gweithredu, yn unol â phum ffordd o weithio DLICD. Bydd hyn yn ei dro yn dangos prawf allweddol o gadernid 'A yw'r Cynllun yn Addas? - A yw'n gydnaws â chynlluniau awdurdodau cyfagos?'

- 1.10.2. Mae Bro Morgannwg wedi ac yn parhau i weithio gyda'r holl awdurdodau lleol cyfagos lle gellir elwa drwy gydweithio a rhannu adnoddau. Bydd hyn yn cynnwys rhannu a pharatoi ar y cyd elfennau o'r sylfaen dystiolaeth, paratoi astudiaethau rhanbarthol yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgorau rhanbarthol fel Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (GCSDdC).

1.11. RHEOLI RISG

- 1.11.1. Ar ôl ystyried y mewnbwn adnoddau i broses y CDLIN, mae'r Cyngor o'r farn, er ei bod yn heriol, fod yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy. Wrth baratoi'r amserlen, mae'r Cyngor wedi ystyried cwmplas y gwaith dan sylw, Rheoliadau a chanllawiau presennol Llywodraeth Cymru a'r adnoddau y gall y Cyngor eu hymrwymo i baratoi'r cynllun. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn disgwyl i Gynlluniau Datblygu Lleol Newydd gael eu paratoi mewn 3.5 mlynedd o gytundeb ffurfiol y CC gydag un cyfnod llithriant ychwanegol o 3 mis sy'n rhoi ychydig o hyblygrwydd os oes angen. Mae unrhyw wriad y tu hwnt i hyn yn gofyn am ddiwygiad ffurfiol i'r Cytundeb Cyflawni ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei ystyried. Gan ein bod eisoes wedi mynd heibio'r amserlen wreiddiol ar gyfer y Cytundeb Cyflawni, bydd angen paratoi a chytuno ar Gytundeb Cyflawni newydd.
- 1.11.2. Er y gwneir pob ymdrech i gadw at yr amserlen benodol ddiwygiedig, mae'r Cyngor wedi nodi rhai meysydd risg a allai arwain at wyro rhywfaint o'r amserlen. Nodir y risgiau hyn ynghyd ag ymateb arfaethedig y Cyngor i'w rheoli os byddant yn digwydd yn Atodiad 3.

1.12. ADNODDAU

- 1.12.1. O ran adnoddau staff, Pennaeth Adfywio a Chynllunio'r Cyngor a'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cynllunio a Rheoli Adeiladu fydd yn gyfrifol am gyflawni'r CDLIN yn gyffredinol. Y Prif Gynllunydd fydd yn gyfrifol am y gwaith rheoli prosiect o'r broses o ddydd i ddydd. Bydd y Tîm Polisi Cynllunio yn arwain y gwaith o baratoi a chyflwyno'r CDLIN gan gynnwys paratoi'r holl ddogfennau a gweithgareddau ymgynghori.
- 1.12.2. Mae'r adnoddau staff presennol wedi'u nodi isod:
- Prif Gynllunydd X 1
 - Uwch Gynllunydd X 2.6
 - Cynllunydd Cynorthwyol X 1
 - Trefnydd Myfyrwyr X 1

1.12.3. Yn ogystal â'r adnoddau staff uchod, bydd hefyd angen i adrannau mewnol eraill gynorthwyo gyda diweddariadau/asesiadau sylfaen tystiolaeth amrywiol, paratoi dogfennau i'w cyhoeddi a chydag ymgynghori / cyfranogiad y cyhoedd (fel y nodir yn y CCG). Mae hyn yn debygol o gynnwys cymorth swyddogion gan:

- Rheoli Datblygiadau
- Tai
- Priffyrdd
- Addysg
- Adfywio
- Cefn Gwlad
- Gwasanaethau Democraidd
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- TGCh
- Cyfathrebiadau Corfforaethol
- Dylunwyr Graffeg

1.13. FFIOEDD YMGYNGHORWYR A RAGWELIR

1.13.1. Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r CDLIN yn cael ei wneud gan swyddogion y Cyngor. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen gwasanaethau arbenigol proffesiynol ychwanegol hefyd drwy gydol y rhaglen CDLIN, yn enwedig mewn perthynas ag elfennau technegol neu arbenigol o'r sylfaen dystiolaeth (e.e., ACI) ac yn ystod yr Archwiliad. Mae adnoddau ariannol ar gael ar gyfer y comisiynau hyn.

1.13.2. Paratowyd y CC mewn perthynas â CDLIN yn unig. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwaith yn mynd rhagddo ar sail ranbarthol a bydd cydweithio ag awdurdodau cyfagos yn parhau i fod yn hanfodol i baratoi'r CDLIN, yn enwedig o ran sail dystiolaeth ar y cyd, lle y bo'n briodol. Mae GCSDDdC wedi ac yn parhau i weithio tuag at gyfres o fethodolegau y cytunwyd arnynt yn ranbarthol ar gyfer meysydd pwnc allweddol er mwyn sicrhau sail dystiolaeth gyson ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

1.13.3. Mae cyllideb bwrpasol ar gael i ddatblygu'r CDLIN i'w fabwysiadu o fewn yr amserlen arfaethedig. Rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â phob elfen o baratoi'r CDLIN a'r Archwiliad Annibynnol.

1.14. COVID-19

1.14.1. Mae pandemig Covid 19 wedi cael effaith fawr ar draws cymdeithas gan arwain at sefydliadau'n gorfod addasu a dod o hyd i ffyrdd eraill o weithio a darparu gwasanaethau.

1.14.2. Er efallai bod newidiadau wedi bod yn y ffordd y cynhelir ymgynghoriadau cyhoeddus, a bod mwy o bwyslais bellach yn cael ei roi ar ymgynghori digidol a rhithwir, mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd drwy gydol proses y CDLIN a bydd yn ceisio sicrhau nad yw rhanddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd dan anfantais a'u bod yn gallu ymgysylltu â phroses y CDLIN.

- 1.14.3. Mae'r CCG yn cynnwys manylion ynghylch ble a phryd y gallai fod angen newidiadau o'r fath i'r ymgynghoriad statudol a'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i sicrhau ymgynghori ystyrlon.

1.15. MONITRO AC ADOLYGU

- 1.15.1. Mae'r Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol barhau i adolygu materion a allai effeithio ar gynllunio a datblygu yn eu hardaloedd. Bydd y Cyngor yn monitro ac adolygu cynnydd y CDLIN yn erbyn gofynion y CC er mwyn sicrhau bod yr amserlen yn cael ei chadw a bod y digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd fel a nodir yn y CCG yn cael eu bodloni.
- 1.15.2. Er ein bod eisoes wedi mynd heibio'r amserlen wreiddiol ar gyfer y CC, gallai amgylchiadau eithriadol y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol effeithio ymhellach ar yr amserlen ddiwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth Ewropeaidd, y Deyrnas Unedig neu Gymru sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi'r CDLIN.
 - Newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau e.e. yr hyn a ddeilliodd o gyfyngiadau Covid 19.
 - Y gwaith o baratoi'r CDLIN yn llithro gan fwy na 3 mis ar gam allweddol yn yr amserlen a gymeradwywyd oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol e.e. Adolygiad Barnwrol
 - Newidiadau sylweddol nas rhagwelwyd i'r adnoddau sydd ar gael i baratoi'r CDLIN.
 - Unrhyw newidiadau eraill mewn amgylchiadau a fydd yn effeithio'n sylweddol ar gyflawni'r CDLIN yn unol â'r CC.
- 1.15.3. Bydd amserlen wedi'i diweddarau yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y cam Adneuo. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd o'r amserlenni ar gyfer y camau sy'n weddill (h.y. disodli camau dangosol gyda chamau pendant). Caiff yr amserlen ddangosol ei mireinio ar ôl y cam Adneuo a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru i gytuno arni.
- 1.15.4. Ar ôl mabwysiadu'r CDLIN, caiff Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) ei lunio a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â Rheoliad CDLI 37. Bydd yr AMB yn sefydlu pa mor effeithiol y mae polisïau a chynigion y CDLIN yn perfformio ac yn cael eu gweithredu. Bydd yn asesu a yw'r strategaeth sylfaenol yn parhau'n gadarn ac a oes angen newid unrhyw bolisïau i adlewyrchu newidiadau cyddestunol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. Bydd yr AMB hefyd yn pennu'r gofyniad tir ar gyfer tai gan gynnwys cyflawni yn erbyn y llwybr a nodir yn y Cynllun a nifer yr aneddiadau marchnad fforddiadwy a chyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr Awdurdod, ac yn adrodd ar ddangosyddion CDLI eraill.

2. CYNLLUN CYNNWYS Y GYMUNED

2.1. CYFLWYNIAD

- 2.1.1. Mae'r Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG) yn nodi sut a phryd mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach wrth baratoi'r CDLIN. Er mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am gynnwys y CDLIN, mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn dweud ei bod yn hanfodol bod y bobl gywir yn cymryd rhan ar yr adeg gywir o gam cynnar yn y broses o lunio cynllun. Mae hyn yn sicrhau mwy o gonsensws, yn cryfhau cyfranogiad y gymuned ac yn helpu i gysoni proses y CDLIN â'r 5 ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai ymgysylltu'n gynnar hefyd leihau'r adnoddau sydd eu hangen, a'r amser a gymerir i'r Cynllun gyrraedd y cam mabwysiadu drwy leihau nifer y gwrthwynebiadau i bolisiau yn ddiweddarach yn y broses o baratoi'r cynllun.
- 2.1.2. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (paragraff 3.17) yn nodi, wrth baratoi'r CCG, y dylai awdurdodau cynllunio lleol wneud y canlynol:
- "Creu'r amodau ar gyfer cynnwys pobl yn gynnar a chael adborth ar adeg pan all pobl lunio a dylanwadu ar y cynllun, yn seiliedig ar y 5 ffordd o weithio, fel a nodir yn Neddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015.
 - Annog ymrwymiad yr holl gyfranogwyr i ddadl agored a gonest ar ddewisiadau datblygu realistig wrth chwilio am gonsensws eang.
 - Cydnabod yr angen i fabwysiadu dulliau/technegau ar gyfer cynnwys pob elfen o'r gymuned (grwpiau oedran, grwpiau gweithredu cymunedol lleol, grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau nodweddion gwarchodedig) gan gynnwys busnesau, sy'n ceisio cynnwys y rhai nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan.
 - Cydnabod na fydd dull un maint sy'n addas i bawb yn briodol."
- 2.1.3. Drwy gydol proses y CDLIN, bydd y Cyngor yn cadw at ganllawiau a Rheoliadau diweddaraf y Llywodraeth o ran dulliau ymgynghori ac, os oes angen, yn adolygu'r prosesau ymgynghori a nodir yn y CCG er mwyn sicrhau bod y gymuned yn gallu cymryd rhan.

2.2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH GYFRANOGI

- 2.2.1. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn un o'r pedwar amcan lles a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2020-2025 Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Dyfodol Disgleiriach, '*Gweithio gyda ac ar ran ein cymunedau.*' Mae'r amcanion lles yn cyd-fynd ag amcanion lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ac yn darparu fframwaith ar gyfer gwella lles yn yr awdurdod gan wneud y mwyaf o'r cyfraniad a wneir at gyflawni'r nodau lles cenedlaethol mewn ffordd integredig.
- 2.2.2. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r deg egwyddor genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011. Nod yr egwyddorion hyn yw cynnig dull cyson a safon dda ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ledled Cymru ac maent fel a ganlyn:

1. **Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth** - Mae ymgysylltu'n rhoi cyfle gwirioneddol i ddylanwadu ar bolisi, cynllunio gwasanaethau a darparu gwasanaethau o gam cynnar.
2. **Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os dymunant** - Caiff y bobl a effeithir gan broblem neu newid eu cynnwys mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel rhan o grŵp neu gymuned, gyda'u barn yn cael ei pharchu ac yn cael ei gwerthfawrogi.
3. **Caiff y broses ymgysylltu ei chynllunio a'i darparu mewn modd amserol a phriodol** - Mae'r broses ymgysylltu yn glir, yn cael ei chyfathrebu gyda phawb mewn ffordd sy'n hawdd ei deall o fewn amserlen resymol, a defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â'r broses.
4. **Gweithio gyda sefydliadau partner** - Dylai sefydliadau gyfathrebu gyda'i gilydd a chydweithio lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.
5. **Bydd y wybodaeth a ddarperir yn syml, priodol ac yn hawdd ei deall** - Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd ei bod yn hawdd iddynt gael gafael ar wybodaeth berthnasol sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion.
6. **Ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan** - Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd y nodir ac eir i'r afael ag unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl.
7. **Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol** - Dylai prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder yr holl gyfranogwyr.
8. **Rhoddir yr adnoddau a'r cymorth cywir er mwyn i'r broses ymgysylltu fod yn effeithiol** - Darperir hyfforddiant, arweiniad a chymorth priodol i alluogi pawb sy'n cymryd rhan i ymgysylltu'n effeithiol, gan gynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.
9. **Rhennir effaith cyfranogiad gyda chyfranogwyr** - Rhoddir adborth amserol i'r holl gyfranogwyr am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r penderfyniadau neu'r camau a gymerwyd yn eu sgil; dylai dulliau a ffurf yr adborth ystyried dewisiadau'r cyfranogwyr.
10. **Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu** - Dylai profiad pobl o'r broses ymgysylltu gael ei fonitro a'i werthuso i fesur ei lwyddiant wrth ymgysylltu â phobl ac effeithiolrwydd eu cyfranogiad. Dylai gwersi gael eu rhannu a'u rhoi ar waith mewn digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol.

2.3. PWY FYDDWN NI'N YMGYNGHORI Â NHW?

- 2.3.1. Mae Rheoliadau CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid i baratoi'r CDLIN, gan gynnwys cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol a'r cyhoedd. Mae cynnwys pobl a chymunedau'n effeithiol a chydweithio â sefydliadau eraill yn ddwy o'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent yn agwedd allweddol wrth baratoi'r CDLIN.
- 2.3.2. Mae Atodiad 1 yn darparu rhestr o'r holl gyrff ymgynghori penodol a chyffredinol yr ymgynghorir â hwy yng nghymunedau priodol proses y CDLIN. Nid yw'r rhestr hon o

ymgyngoreion yn gynhwysfawr ac ychwanegir ati fel y bo'n briodol drwy gydol proses y CDLIN.

2.3.3. Bydd y Cyngor yn ceisio cynnwys y grwpiau canlynol wrth baratoi'r CDLIN:

AELODAU O'R CYHOEDD, SEFYDLIADAU A PHERSONAU Â DIDDORDEB

- 2.3.4. Ar gyfer y CDLI mabwysiedig, datblygodd a chynhaliodd y Cyngor gronfa ddata ymgynghori a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyswllt a manylion ymgynghori'r unigolion, asiantaethau, sefydliadau a grwpiau cymunedol hynny a oedd wedi cymryd rhan ym mhroses y CDLI. Roedd y gronfa ddata yn cynorthwyo swyddogion i reoli proses y CDLI ac yn galluogi partion â diddordeb i gael eu diweddarau a'u hysbysu am gynnydd.
- 2.3.5. Daeth Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yr UE i rym ym mis Mai 2018. Roedd hyn yn gosod cyfyngiadau newydd ar sut y gall sefydliadau gadw a defnyddio data personol a diffinio hawliau am y data hwnnw. O ganlyniad i'r GDPR, ni all y Cyngor ddefnyddio gwybodaeth o'r CDLI blaenorol mwyach ac felly mae'n ofynnol iddo sefydlu cronfa ddata newydd o randdeiliaid a phartion â diddordeb sy'n dymuno bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLIN.
- 2.3.6. Rhaid i unrhyw bartion â diddordeb roi eu caniatâd, yn ysgrifenedig, os ydynt yn dymuno cael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid newydd. Ystyrir bod unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ar unrhyw un o gamau proses y CDLIN wedi rhoi eu caniatâd a byddant yn cael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i weinyddu eu sylwadau a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am broses y CDLIN. Bydd cynrychiolwyr hefyd yn cael cyfle i dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- 2.3.7. Os bydd unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni yn dymuno bod yn rhan o'r gwaith o baratoi'r CDLIN, gallant wneud cais i gael eu hychwanegu at y gronfa ddata rhanddeiliaid drwy roi eu manylion cyswllt ar wefan y Cyngor. Gall y rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad i wefan y Cyngor gysylltu â'r Tîm Polisi Cynllunio drwy e-bost, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt fel y nodir ym mharagraff 2.4.4 isod i gael ffurflen i gyflwyno eu manylion a'u caniatâd.

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

- 2.3.8. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Bro Morgannwg i weithio mewn partneriaeth er mwyn dyfodol gwell. Sefydlwyd BGCau ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a Chynllun Lles Bro Morgannwg, mae partneriaid yn gweithio ynghyd i wella lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol yr awdurdod.
- 2.3.9. Mae BGC Bro Morgannwg wedi'i nodi fel grŵp rhanddeiliaid allweddol i weithredu fel bwrdd seinio yng nghamau cyfranogiad y CDLIN ac wrth baratoi'r ACI. Rhagwelir y bydd hyn yn digwydd drwy drafodaethau strwythuredig dan

arweiniad hwyluswyr hyfforddedig o dîm Cyfathrebu Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn un o bedwar partner statudol y BGC, a'r tri arall yw:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Hefyd, mae nifer o bartneriaid eraill hefyd wedi derbyn y gwahoddiad i fod yn aelodau o'r BGC a chyfranogi yn ei weithgareddau, y rhain yw:

- Heddlu De Cymru
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned
- Llywodraeth Cymru

AELODAU ETHOLEDIG

2.3.10. Bydd aelodau etholedig yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad y CDLIN. Maent mewn sefyllfa unigryw, yn cynrychioli eu hetholwyr ac yn gwneud penderfyniadau ar faterion a fydd yn effeithio ar ddyfodol Bro Morgannwg. Byddant yn gallu codi ymwybyddiaeth o'r CDLIN yn eu ward a helpu i dynnu sylw at unrhyw faterion a chyfleoedd lleol sy'n berthnasol i'r Cynllun.

2.3.11. Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio sy'n gyfrifol am y Polisi Cynllunio gan gynnwys y CDLIN. Mae cysylltu ag Aelod Cabinet a phob aelod arall yn hanfodol drwy gydol proses y CDLIN. Yn y camau allweddol o baratoi'r CDLIN a'r ACI, ymgysylltir ag aelodau drwy sesiynau briffio aelodau, gweithdai aelodau a thrwy adroddiadau i gyfarfodydd priodol y Cyngor.

CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

2.3.12. Mae Cynghorau Tref a Chymuned yn chwarae rhan allweddol wrth ledaenu gwybodaeth bwysig i drigolion yn eu hardal. Ymgynghorir â hwy ar bob cam o broses y CDLIN a chânt eu hannog i godi ymwybyddiaeth o'r CDLIN yn eu cymunedau lleol. Gallant ddarparu'r wybodaeth a'r farn leol ddiweddaraf am unrhyw gynigion yn eu hardal, rhoi manylion unrhyw ddyheadau defnydd tir sydd ganddynt ar gyfer eu cymuned a gallant helpu i nodi materion allweddol yn ymwneud â defnydd tir.

2.3.13. Drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae potensial i gynghorau tref a chymuned baratoi Cynlluniau Cynefin ar gyfer eu hardal. Dylai Cynlluniau Cynefin adlewyrchu dyheadau'r gymuned leol tra'n gwneud synergeddau â dyheadau'r Cyngor yn y cynllun datblygu a'r Cynllun Lles. Rhoddir pwysau ar

Gynlluniau Cynefin mewn penderfyniadau cynllunio os cânt eu mabwysiadu gan y Cyngor fel canllaw cynllunio atodol.

BUSNESAU, TIRFEDDIANWYR, DATBLYGWYR AC ASiantAU

- 2.3.14. Bydd angen tir a buddsoddiad i fodloni nodau ac amcanion y CDLIN, a gwneir ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned fusnes yn gynnar. Byddwn yn ymgysylltu ag asiantau cynllunio sy'n defnyddio gwasanaeth cynllunio'r Cyngor yn rheolaidd ynghyd â thirfeddianwyr, asiantau tai a darpar ddatblygwyr sy'n dymuno hyrwyddo tir i'w ddatblygu drwy broses y CDLIN.
- 2.3.15. Bydd y broses Safleoedd Ymgeisiol yn rhoi cyfle i bartïon â diddordeb gyflwyno safleoedd datblygu ar gyfer dyraniad posibl yn y CDLIN. Mae methodoleg gyffredin wedi'i sefydlu ar draws rhanbarth De-ddwyrain Cymru i awdurdodau cynllunio lleol ei defnyddio ar gyfer eu CDLINau priodol. Byddwn yn gwneud galwad am safleoedd ymgeisiol a bydd angen cyflwyno pob safle ymgeisiol drwy ffurflen safonol. Bydd y ffurflen yn cynnwys y meini prawf sydd eu hangen i helpu i asesu safleoedd. Yn unol â pharagraff 3.36 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, bydd yn ofynnol i hyrwyddwyr safleoedd ddangos a yw'r safle:
- Mewn lleoliad cynaliadwy ac yn gallu cael ei ryddhau o bob cyfyngiad.
 - Yn gallu cael ei gyflawni.
 - Yn ariannol ddichonadwy.

CYRFF YMGYNGHORI PENODOL A CHYFFREDINOL

- 2.3.16. Mae Atodiad 1 yn darparu rhestr o'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol ynghyd ag adrannau Llywodraeth y DU ac ymgynghoreion eraill. Mae'r ymgynghoreion penodol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff hynny sydd â swyddogaethau penodol sy'n berthnasol i ardal y CDLIN e.e. Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a'r prif ddarparwyr cyfleustodau. Rhaid i'r Awdurdod hefyd ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth y DU lle mae'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau. Ymgynghorir yn ffurfiol â'r cyrff ymgynghori hyn drwy gydol proses y CDLIN.

GRWPiau ANODD EU CYRRAEDD

- 2.3.17. Grwpiau anodd eu cyrraedd yw'r grwpiau hynny o fewn cymdeithas sydd fel arfer wedi cael eu tangynrychioli yn y broses o baratoi'r cynllun. Felly, bydd angen ymdrech ychwanegol i sicrhau bod y grwpiau hyn yn cymryd rhan ym mhroses y CDLIN. Bydd angen mynd ati'n hyblyg o ran ymgysylltu â'r grwpiau hyn, er y bydd hynny o fewn paramedrau'r cyfnodau cyfranogi / ymgynghori penodedig.
- 2.3.18. Er mwyn ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd ym mhroses y CDLIN, bydd y Cyngor yn defnyddio asiantaethau, grwpiau sy'n bodoli eisoes, grwpiau lle bo hynny'n bosibl a gellir defnyddio cyfryngwyr dibynadwy hefyd i gael barn grwpiau nad oes ganddynt yr hyder i gymryd rhan uniongyrchol ym mhroses y CDLIN.

2.3.19. Nodir nad yw'r grwpiau canlynol wedi cymryd rhan ddigonol yn y gwaith o baratoi'r cynllun o'r blaen a byddant yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r CDLIN:

- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl ag anableddau
- Pobl hŷn
- Pobl ag anawsterau dysgu
- Pobl Ddigartref
- Lleiafrifoedd Ethnig
- Sipsiwn a Theithwyr

2.3.20. Yn ogystal â'r grwpiau anodd eu cyrraedd uchod, mae lleisiau eraill nas clywir yn aml yr ystyrir eu bod wedi'u tangynrychioli o'r blaen wrth baratoi cynllun datblygu. Mae hyn yn cynnwys (ond nid yw wedi ei gyfyngu i) y rhai sy'n chwilio am dai fforddiadwy yn yr awdurdod, datblygiadau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, adeiladwyr tai bach / hunan-adeiladu a busnesau bach a chanolig. Bydd y Cyngor yn ceisio ymgysylltu â'r grwpiau hyn drwy ddefnyddio cysylltiadau sy'n bodoli eisoes lle bo hynny ar gael.

2.4. SUT BYDDWN NI'N EICH CYNNWYS CHI

2.4.1. Bydd gwybodaeth am broses y CDLIN yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ar wefan y Cyngor (www.bromorgannwg.gov.uk). Bydd copïau o'r dogfennau perthnasol sy'n gysylltiedig â phroses y CDLIN hefyd ar gael ym mhrif swyddfa'r Cyngor yn Heol Holltwn, y Barri ac mewn llyfrgelloedd sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

2.4.2. Mae Strategaeth Ddigidol y Cyngor 2017 - 2020 yn nodi gweledigaeth y Cyngor o sut y gall technolegau newydd ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon, cynhyrchiol a chost-effeithiol er budd staff a thrigolion Bro Morgannwg. Mae'r strategaeth yn deillio o adolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu prosesau allweddol ar draws y sefydliad. Un o'r prif ddarganfyddiadau o'r adolygiad oedd y rôl y gall technoleg ddigidol ei chael yn y ffordd y mae'r Cyngor yn rhyngweithio â chwsmeriaid a phartneriaid ac arbedion effeithlonrwydd y gellir manteisio arnynt drwy symud at sianeli digidol fel drwy'r wefan ac appiau ar-lein, yn hytrach na thrwy'r dulliau traddodiadol o gyswllt cwsmeriaid fel dros y ffôn, yn y post ac wyneb yn wyneb.

2.4.3. Bydd gweledigaeth ddigidol y Cyngor yn cael ei chyflwyno drwy bedair thema gydberthynol, â'r rhan fwyaf ohonynt yn wasanaethau cwsmeriaid a digidol sy'n ceisio galluogi dinasyddion i gael y gwasanaethau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar-lein yn ddigidol yn ddiofyn. Mae hyn yn golygu cofleidio technoleg i ail-ddylunio gwasanaethau a'r ffordd y maen nhw'n cael eu darparu i gwsmeriaid (gan ddechrau ag ateb digidol fel yr ateb diofyn.)

2.4.4. Amlygwyd pwysigrwydd technoleg ddigidol wrth ymgysylltu â phartneriaid a lledaenu gwybodaeth drwy gydol pandemig Covid 19 lle mae atebion newydd ac arloesol wedi cael eu defnyddio a'u croesawu. Safbwynt diofyn y Cyngor felly drwy gydol proses y CDLIN fydd defnyddio cyfathrebu electronig ac ymgysylltu rhithwir.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na fydd gan rai unigolion fynediad i'r rhyngwrdd. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor yn dweud lle mae copïau caled o ddogfennau ar gael i'w gweld a bydd ffurflenni sylwadau papur ar gael ar gais. Gwneir ymdrechion i wneud y cyfnodau ymgynghori mor glir a hygyrch â phosibl. Bydd swyddogion ar gael yn ystod yr wythnos yn ystod oriau swyddfa arferol i ddelio ag unrhyw ymholiadau CDLIN a gellir cysylltu â hwy fel y nodir isod:

Post: Tîm Polisi Cynllunio, Llawr 2, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU

Ffôn: 01446 704665

E-bost: LDP@valeofglamorgan.gov.uk

2.4.5. Bydd y Cyngor yn ceisio rhoi cyhoeddusrwydd i broses y CDLIN ar bob cam er mwyn cyrraedd cynifer o bartïon â diddordeb â phosibl ac annog ymgysylltu gweithredol yn y broses. Gwneir hyn drwy:

- Cyswllt uniongyrchol (yn bennaf drwy e-bost neu lythyr lle bo angen naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg).
- Taflenni / cylchlythron / posteri
- Defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.
- Ymgysylltu ag aelodau etholedig drwy weithdai penodol, sesiynau briffio, sesiynau galw heibio ac mewn adroddiadau i gyfarfodydd priodol y Cyngor.
- Datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau lleol, lle bo hynny'n briodol.
- Paratoi dogfennau sy'n helpu pobl i gymryd rhan yng nghamau allweddol y broses e.e. fersiynau hawdd eu darllen, dogfennau cryno.
- Arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd, sesiynau galw heibio neu arddangosfeydd rhithwir
- Ymgysylltu ac ymgynghori rhithwir drwy offer technolegol ar y we fel gweminarau
- Bydd hysbysiadau safle yn cael eu harddangos ar gyfer dyraniadau tir arfaethedig yn ystod cam y Cynllun ar Adnau.

2.4.6. Bydd y Cyngor yn darparu ystod eang o gyfleoedd i randdeiliaid a phartïon â diddordeb gael gafael ar wybodaeth a chymryd rhan ym mhroses y CDLIN. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran adnoddau o ran faint o ymgysylltu sy'n bosibl. Yn ogystal, mae'n bwysig yr ymdrinnir â phob ymgynghorai mewn modd teg a chyfartal. Gan ystyried hyn, ni chynigir fod swyddogion yn mynychu cyfarfodydd a drefnir gan grwpiau unigol. Fodd bynnag, bydd swyddogion ar gael drwy gydol broses y CDLIN yn ystod oriau swyddfa arferol i ddarparu gwybodaeth neu gymorth os oes angen. Dylid nodi, os caiff cyswllt wyneb yn wyneb â swyddogion ei gyfyngu gan ganllawiau perthnasol y llywodraeth ar faterion o'r fath ar y pryd, bydd dulliau cyfathrebu amgen megis ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu defnyddio.

DOGFENNAU HAWDD EU DARLLEN

2.4.7. Er mwyn cynorthwyo gydag eglurder a chynhwysiant, bydd y Cyngor yn cynhyrchu dogfennau ar gamau allweddol sy'n helpu pobl i gymryd rhan yn y broses e.e., fersiynau 'hawdd eu darllen' neu ddogfennau cryno.

2.5. YR HYN A DDISGWYLIWN GENNYCH CHI – DISGWYLIADAU RHANDDEILIAID

- 2.5.1. Er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadau a safbwyntiau a fynegir ar y CDLIN yn cael eu hystyried, rhaid eu cyflwyno o fewn yr amserlenni a'r modd a ragnodwyd. Mae'r CC yn cynnwys yr amserlen ar gyfer camau perthnasol y Cynllun ac mae'n rhoi canllaw ynghylch pryd y byddwn yn gofyn am eich cyfranogiad. Ceir gwybodaeth fanylach isod. Bydd hyn yn sicrhau bod safbwyntiau unigol yn cael eu hystyried ac yn rhan o'r ystyriaeth drwy gydol proses y CDLIN.
- 2.5.2. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn hysbysu'r tîm Polisi Cynllunio pe bai eich manylion cyswllt yn newid yn ystod proses y CDLIN er mwyn i swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd. O ran safleoedd ymgeisiol, nodir y gallai newidiadau perchnogaeth tir ddigwydd yn ystod y broses hefyd ac mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cyfleu i'r Tîm Polisi Cynllunio er mwyn sicrhau na fydd oedi ar unrhyw gynnydd a wneir.

2.6. ADEILADU CYDSYNIAD

- 2.6.1. Bydd y Cyngor yn ceisio meithrin consensws drwy'r gwahanol ddulliau ymgysylltu ac ymgynghori a nodir yn y CCG. Dim ond os yw'r gymuned a phartïon eraill â diddordeb yn cael eu hysbysu'n llawn ac yn ymgysylltu'n effeithiol drwy gydol y gwaith o baratoi'r CDLIN y gellir cyrraedd cydsyniad, a fydd yn arbennig o bwysig yng nghamau cynnar paratoi'r CDLIN. Cydnabyddir serch hynny y bydd adegau lle na ellir sicrhau consensws a bod gwahaniaeth barn rhwng rhai partïon yn digwydd. Bydd trywydd archwilio clir o benderfyniadau'n cael ei gynnal er mwyn sicrhau bod tryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau, ac, er mwyn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n anghytuno, bod y penderfyniadau wedi'u gwneud mewn ffordd wybodus a chytbwys.

2.7. YMDRIN Â SYLWADAU

- 2.7.1. Ymdrinnir â sylwadau a dderbynnir o fewn yr amserlenni penodedig fel a ganlyn:
- E-bost cydnabod (neu lythyr lle bo angen) yn rhoi manylion cyswllt ac yn manylu ar sut y bydd y Cyngor yn ymdrin â'r sylwadau
 - Manylion y camau nesaf ym mhroses baratoi'r CDLIN
 - Ymatebion awdurdodau lleol i sylwadau a gofnodwyd ac a gyhoeddwyd yn unol â'r Rheoliadau.
- 2.7.2. Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei defnyddio i ddarparu'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am gynnydd y CDLIN. Ym mhob cam allweddol, bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadrodd i'r Cabinet a lle bo angen y Cyngor.
- 2.7.3. Bydd deisebau a dderbynnir yn ystod cyfnodau ymgynghori ar y CDLIN yn cael eu cydnabod a'u cofrestru fel cynrychiolaeth ddilys. Rhaid i bob deiseb enwebu un cyflwynydd. Bydd cydnabyddiaeth drwy e-bost neu lythyr yn cael ei hanfon at gyflwynydd y ddeiseb a fydd yn bwynt cyswllt a bydd ganddo hawl i gael ei glywed mewn unrhyw Archwiliad yn y dyfodol, yn amodol ar gytundeb gan yr Arolygydd.

Nid yw hyn yn cyfyngu ar hawl unigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb i gyflwyno sylwadau ffurfiol ar wahân ar y Cynllun.

2.8. SYLWADAU HWYR

- 2.8.1. Mae proses baratoi'r CDLIN yn amodol ar gyfnodau ymgynghori statudol ac anstatudol sydd â chyfnodau diffiniedig ar gyfer cyflwyno sylwadau. Er mwyn sicrhau tegwch a chydaddoldeb i bawb, ystyrir bod unrhyw sylwadau a dderbynnir ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori rhagnodedig 'heb eu gwneud yn briodol' ac ni chânt eu hystyried ymhellach. Mae'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLIN wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru a gallai derbyn sylwadau hwyr arwain at oedi pellach na fyddai'n dderbyniol.
- 2.8.2. Dim ond pan fo'r Cyngor yn fodlon bod ymgais wirioneddol i gyflwyno sylwadau o fewn yr amserlen penodol wedi'i gwneud, y bydd sylwadau hwyr yn cael eu cofrestru fel y'u gwnaed yn briodol. Bydd angen tystiolaeth o ddanfon, postio ac ati i gefnogi hawliadau o'r fath. Disgwylir i amgylchiadau o'r fath fod yn eithriadol, a chynghorir pob cynrychiolydd i gyflwyno sylwadau o fewn y cyfnodau ymgynghori a hysbysebir.

2.9. ARGAELEDD DOGFENNAU

- 2.9.1. Bydd dogfennau a ffurflenni sylwadau'r CDLIN ar gael yn electronig ar gamau perthnasol y broses baratoi ar dudalennau gwe Polisi Cynllunio gwefan y Cyngor yn:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/Planning/planning_policy/Replacement-Local-Development-Plan.aspx

- 2.9.2. Bydd copïau papur hefyd ar gael yn y lleoliadau canlynol:
- Prif swyddfa'r Cyngor yn Heol Holltwn, Y Barri;.
 - Yr holl lyfrgelloedd a reolir gan Gyngor Bro Morgannwg.
- 2.9.3. Lle bo angen, bydd copïau caled o ddogfennau'n cael eu hanfon at gyrff Ymgynghori Penodol. Fodd bynnag, ni fydd copïau papur o ddogfennau yn cael eu hanfon allan yn gyffredinol yn ystod proses y CdLIN gan y byddant ar gael i'r cyhoedd yn y lleoliadau a restrir uchod, a byddant ar gael yn electronig ar wefan y cyngor. Mewn amgylchiadau eithriadol gellir cynnig copïau papur. Fodd bynnag, caiff hyn ei asesu fesul achos yn dibynnu ar anghenion penodol yr unigolyn neu'r rhanddeiliad perthnasol.

2.10. Y GYMRAEG

- 2.10.1. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, sy'n golygu na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Daeth Safonau'r Gymraeg i rym ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn 2016. Mae'r rhain yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio a chael mynediad i'w gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a chyflwyno cosbau am beidio â chydymffurfio. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i

weithredu Safonau'r Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu.

2.10.2. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Strategaeth ddrafft Hyrwyddo'r Gymraeg³, a bydd gofynion y Strategaeth Gorfforaethol a Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal ym mhob cam o broses y CDLIN.

2.10.3. Bydd ymgysylltu dwyieithog yn cael ei wneud yn y ffyrdd canlynol:


- Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a lle derbynnir gohebiaeth yn Gymraeg a bod angen ateb, bydd yr ateb yn Gymraeg;
- Bydd yr holl lythyrau ymgynghori, ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau safle) a chylchlythyrau yn gysylltiedig â'r CDLI yn ddwyieithog;
- Bydd unrhyw dudalennau CDLIN ar wefan y Cyngor a'r negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog;
- Bydd unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan fydd cais wedi'i wneud ymlaen llaw. Mae angen hysbysu ymlaen llaw er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu; a
- Gellir sicrhau bod dogfennau drafft ar y CDLIN ar gael yn Gymraeg os gofynnir amdanynt. Bydd y CDLIN ar ôl ei fabwysiadu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

2.11. AMSERLEN A DULLIAU YMGYSYLLTU

2.11.1. Mae Ffigur 1 yn rhoi crynodeb o'r broses CDLIN sy'n tynnu sylw at bwyntiau ymgysylltu ac adborth. Mae Atodiad 2 yn nodi'r amserlen fanwl ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'r dulliau ymgysylltu arfaethedig ar gyfer y cyfnodau allweddol ym mhroses baratoi'r CDLIN. Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysol a gellir ei haddasu i sicrhau bod y gymuned a rhanddeiliaid yn cymryd rhan briodol ym mhob cam. Bydd gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn cael eu diweddarau'n rheolaidd mewn perthynas â'r CDLIN a bydd pob ymgynghorai yn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau neu ymgynghoriadau. Bydd datganiadau i'r wasg lleol hefyd yn cael eu cyhoeddi yn ôl yr angen.

³ Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Bro Morgannwg
<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Equal%20Opportunities/Welsh%20Language/Welsh-Language-Promotion-Strategy-Final.pdf>

Ffigur 3: Crynodeb o broses y CDLIN, gan gynnwys Pwyntiau Ymgysylltu ac Adborth



3. AMSERLEN

3.1.1. Mae amserlen sy'n manylu ar wahanol gamau proses y CDLIN, sut y caiff ei rheoli a'r adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer ei chynhyrchu yn rhan annatod o'r CC i'w gytuno gyda Llywodraeth Cymru. Mae paragraff 3.24 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi bod rhaid i'r amserlen nodi llinell amser ar gyfer y broses o baratoi'r cynllun sy'n cynnwys y gwahanol gamau, gan gynnwys y cyfnodau ymgynghori â'r cyhoedd allweddol, sy'n ddiffiniol hyd at y cam adneuo, ac yn ddangosol hyd at y cam mabwysiadu. Rhaid iddi hefyd nodi'r dyddiadau allweddol ar gyfer cyhoeddi Adroddiad yr ACI a'r AMB.

3.1.2. Mae Tabl 1 yn crynhoi prif gamau amserlen y CC.

Tabl 1: Amserlen Gryno

Camau Allweddol		Amserlenni Diffiniol
Cam 1 Cytundeb Cyflawni	Ymgynghoriad Cyhoeddus	Tachwedd 2021 – Ionawr 2022
	Cymeradwyaeth Gwleidyddol a Chyflwyno i Lywodraeth Cymru	Mawrth 2022 - Ebrill 2022
	Cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru	Mai 2022
	Paratoi CC Diwygiedig	Gorffennaf 2023 – Medi 2023
	Cymeradwyo estyniad i amserlen y Cynllun Cyflawni gan Lywodraeth Cymru	Tachwedd/Rhagfyr 2023
Cam 2 Cyn-Adneuo	Galwad am Safleoedd Ymgeisiol	Mehefin 2022 - Awst 2022
	Ymgynghoriad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Awst 2022 – Medi 2022
	Opsiynau Gweledigaeth ac Amcanion/Twf	Mai 2022 - Tachwedd 2022
	Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir	Rhagfyr 2023 – Chwefror 2024
	Cymeradwyo gwleidyddol Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir	Medi 2024 – Hydref 2024
Cam 3 Adneuo	Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun ar Adnau	Chwefror 2026 - Mawrth 2026
		Amserlenni Bras
Cam 4	Cymeradwyaeth Gwleidyddol a Chyflwyno i Lywodraeth Cymru	Tachwedd 2026
	Cyflwyniad	Tachwedd 2026
Cam 5	Archwilio	Rhagfyr 2026 – Chwefror 2027

Cam 6	Paratoi a chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd	Mawrth 2027 – Gorffennaf 2027
Cam 7	Mabwysiadu	Awst 2027 – Medi 2027

3.1.3. Fel y nodwyd uchod, mae'r amserlen wedi'i rhannu rhwng camau diffiniol a dangosol fel a ganlyn:

- Camau Diffiniol (Camau 1- 4) - mae hyn yn diffinio'r elfennau hynny o'r broses CDLIN hyd at a gan gynnwys y cam Adneuo. Mae'r camau hyn o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor ac ystyrir bod y dyddiadau diffiniol a ddangosir yn nhabl 1 uchod yn realistig ac yn gyraeddadwy. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y broses o baratoi'r CDLIN yn glynu wrth yr amserlen ddiffiniedig.
- Camau Diffiniol (Camau 5 - 8) - mae hyn yn diffinio'r elfennau hynny o'r broses CDLIN ar ôl y cam Adneuo a hyd at a gan gynnwys y cam mabwysiadu. Gan fod y camau hyn yn fwy dibynnol ar ffactorau allanol nad oes gan y Cyngor fawr o reolaeth uniongyrchol drostynt (e.e. nifer y sylwadau a dderbynnir), mae'r amserlen yn ddangosol. Dylid nodi y bydd y camau dangosol yn yr amserlen yn cael eu diffinio o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod Adneuo.

3.1.4. Lle bo angen, bydd amserlenni ymgynghori estynedig yn cael eu mabwysiadu yn lle, e.e. pe bai cyfnodau ymgynghori cyhoeddus yn disgyn ar wyliau cyhoeddus mawr, er mwyn sicrhau ymgysylltiad parhaus a pherthnasol â rhanddeiliaid. Bydd opsiynau cynnwys digidol i roi gwybodaeth i gymunedau a'r gallu i ymgysylltu â'r CDLIN mewn modd rhithwir yn cael eu defnyddio. Bydd manylion am natur pob cyfnod ymgynghori a'r trefniadau ar gyfer y dulliau ymgysylltu yn cael eu gwneud yn glir ar wefan y Cyngor a bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon at y rhai ar gronfa ddata'r CDLIN. Fel y nodir yn y CCC, rhagwelir y bydd cymysgedd o ddigwyddiadau cyhoeddus a dulliau ymgysylltu rhithwir yn cael eu defnyddio drwy gydol y broses o baratoi'r CDLIN.

3.2. CAMAU ALLWEDDOL PARATOI'R CYNLLUN A CHYFLEOEDD I GYMRYD RHAN

3.2.1. Mae'r Rheoliadau CDLI⁴ yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cymryd rhan ac ymgynghori â'r cyhoedd wrth baratoi'r cynllun. Mae'r adran hon yn rhoi mwy o fanylion am gyfnodau allweddol proses y CDLIN ac yn nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb gymryd rhan yn y CDLIN. Bydd gwefan y Cyngor yn cael ei diweddu'n rheolaidd gyda gwybodaeth am y broses CDLIN gan gynnwys ymgynghoriadau, hysbysiadau ffurfiol a gofynion statudol.

⁴ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)

CAM 1: CYTUNDEB CYFLAWNI (AMSERLEN A CHYNLLUN CYNNWYS Y GYMUNED) (MEHEFIN 2021 - MAI 2022) (RHEOLIAD 9)

- 3.2.2. Mae'r ddogfen hon, sy'n rhoi trosolwg o'r broses CDLIN ac yn nodi yn unol â'r Rheoliadau, yr amserlen a'r CCG sy'n rhoi manylion am sut a phryd y bydd y Cyngor yn ymgysylltu â phartïon a rhanddeiliaid â diddordeb drwy gydol y broses.
- 3.2.3. Cyfleoedd i gymryd rhan:
- Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft a'r Adroddiad Adolygu drafft

CAM 2 (I): PARATOI A CHYFRANOGI CYN ADNEUO (MAI 2022 – TACHWEDD 2023) (RHEOLIADAU 14 A 15)

- 3.2.4. Cyn y gall y Cyngor ddatblygu'r amcanion strategol a fydd yn ffurfio fframwaith y CDLIN, mae'n hanfodol iddo gael dealltwriaeth glir o'r nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd deinamig sy'n bodoli ym Mro Morgannwg. Felly, bydd y Cyngor yn adolygu'r sefyllfa bolisi bresennol o'i chymharu â Bro Morgannwg ac yn casglu data i adolygu a datblygu'r sylfaen dystiolaeth a'r data sylfaenol. Bydd astudiaethau newydd yn cael eu comisiynu a bydd data newydd yn cael ei gasglu lle bo angen i sicrhau bod y gronfa ddata dystiolaeth mor gynhwysfawr â phosibl. Bydd y sylfaen dystiolaeth hefyd yn hysbysu'r ACI.
- 3.2.5. Yn unol â Rheoliad 14, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda Chyrff Ymgynghori Penodol a Chyrff Ymgynghori Cyffredinol priodol yn ystod y gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd ymgysylltu'n canolbwyntio ar weledigaeth ac amcanion, tystiolaeth, materion a strategaethau amgen a dewisiadau. Bydd hyn yn creu cyfle cynnar ar gyfer trafod cyn i'r Strategaeth a Ffefrir gael ei pharatoi. Ar ôl iddi gael ei llunio, bydd y Strategaeth a Ffefrir a'r Dewisiadau Strategol ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ehangach.
- 3.2.6. Fel rhan o ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth, bydd y Cyngor yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i nodi lleoliadau strategol a safleoedd ymgeisiol i'w cynnwys yn y CDLIN. Bydd y Cyngor yn rhoi meini prawf asesu i rhanddeiliaid er mwyn hwyluso'r broses o nodi safleoedd. Bydd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei llunio gan y Cyngor a bydd pob safle ymgeisiol yn cael ei asesu i ganfod a allant gyfrannu at y Strategaeth ar gyfer y Cynllun a bodloni gofynion yr ACI. Wrth hyrwyddo safleoedd ymgeisiol, bydd yn ofynnol i ddatblygwyr a thirfeddianwyr gynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu i asesiad cadarn o'r safle gael ei wneud gan gynnwys tystiolaeth hyfywedd lle bo hynny'n berthnasol.
- 3.2.7. Cyfleoedd i gymryd rhan:
- Galwad am Safleoedd Ymgeisiol

CAM 2 (II): YMGYNGHORIAD CYN-ADNEUO (RHAGFYR 2023 – CHWEFROR 2024) (RHEOLIADAU 15, 16 A 17)

- 3.2.8. Bydd y cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad statudol ar y Strategaeth a Ffefrir a lleoliadau strategol ar gyfer datblygiadau newydd ac Adroddiad ACI cysylltiedig

(cyfnod statudol o 6 wythnos – ymestyn i 10 wythnos). Dilynir hyn drwy baratoi'r adroddiad ymgynghori cychwynnol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r CDLI ar Adnau.

3.2.9. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir
- Ymgynghoriad ar yr adroddiad ACI cychwynnol

CAM 3: ADNEUO (CHWEFROR 2026 – MAWRTH 2026) (RHEOLIAD 17)

3.2.10. Bydd y CDLI ar Adnau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus (cyfnod statudol o 6 wythnos, Rheoliad CDLI 17) i ganiatáu i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Wrth lunio polisiau a nodi safleoedd yn y Cynllun ar Adnau, bydd y Cyngor yn rhoi sylw dyledus i'r ymarferion ymgynghori a'r digwyddiadau rhanddeiliaid blaenorol. Bydd y dogfennau sydd i'w cyhoeddi ar hyn o bryd yn cynnwys y CDLI ar Adnau, Adroddiad yr ACI (gan ymgorffori Adroddiad Amgylcheddol yr AAS), rhestr o ddogfennau ategol a'r adroddiad ymgynghori cychwynnol.

3.2.11. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Ymgynghoriad ar y CDLI ar Adnau
- Ymgynghoriad ar yr Adroddiad ACI Terfynol

CAM 4: CYFLWYNIAD (TACHWEDD 2026) (DANGOSOL) (RHEOLIAD 22)

3.2.12. Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno'r Cynllun ar Adnau, yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, y Cynllun Cynnwys y Gymuned, copïau o'r holl sylwadau a dderbyniwyd, tystiolaeth ategol allweddol, yr Adroddiad Ymgynghori, yr adroddiad ar y newidiadau a awgrymwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a datganiad o'r prif faterion i Lywodraeth Cymru a'r Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC).

3.2.13. Yn dilyn y cyflwyniad hwn penodir Arolygydd i archwilio'r Cynllun i benderfynu a yw'n bodloni gofynion paratoi Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac a yw'n "gadarn" (adran 64(5) Deddf 2004). Bydd yr archwiliad hefyd yn ystyried sylwadau gan gynnwys gwrthwynebiadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau CDLI.

3.2.14. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Ar ôl ei gyflwyno, bydd y broses archwilio yn cael ei chynnal gan Arolygydd Annibynnol. Swyddog Rhaglen sy'n gweithio i'r Arolygydd fydd yn darparu'r pwynt cyswllt cyntaf i randdeiliaid. Bydd gwybodaeth ar gael am y broses archwilio fydd ar y gweill.

CAM 5: ARCHWILIAD (RHAGFYR 2026 – CHWEFROR 2027) (DANGOSOL) (RHEOLIAD 23)

3.2.15. Bydd y Cyngor yn llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r PCAC cyn cyflwyno'r Cynllun. Mae'r PCAC wedi nodi na ddylai'r Archwiliad Annibynnol a chynhyrchu Adroddiad yr Arolygydd gymryd mwy na 12 mis.

3.2.16. Cyfleoedd i gymryd rhan:

- Bydd y cynrychiolwyr yn cael cyfle i fynychu sesiynau gwrandawiadau'r Archwiliad a / neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

CAM 6: ADRODDIAD YR AROLYGYDD (GORFFENNAF 2027 (DANGOSOL))
(RHEOLIAD 24)

- 3.2.17. Unwaith y bydd yr Arolygydd yn fodlon nad oes angen rhagor o wybodaeth i lywio eu hystyriaeth o'r Cynllun, bydd yn cyhoeddi adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r archwiliad, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r Cynllun ar Adnau a'r rhesymau dros yr argymhellion hynny. Bydd penderfyniadau'r Arolygydd yn rhwymo'r Cyngor. Nod yr Archwiliad Annibynnol yw sicrhau bod y Cynllun ar gam lle mae'n gadarn ac y gellir ei fabwysiadu. Mae'n dilyn felly bod rhaid i unrhyw newidiadau a wneir gan yr Arolygydd fod yn amlwg gadarn.

CAM 7: MABWYSIADU (MEDI 2027) (DANGOSOL) (RHEOLIAD 25)

- 3.2.18. Ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd, yn dilyn cyfnod gwirio ffeithiau, mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu'r CDLIN terfynol sy'n ymgorffori argymhellion yr Arolygydd o fewn 8 wythnos, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd. Ar neu cyn y diwrnod y mabwysiedir y CDLIN, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ac yn sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio ac i'w weld ar wefan y Cyngor (www.valeofglamorgan.gov.uk) ac yn y lleoliadau adneuo. Bydd y CDLIN yn dod yn weithredol ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu, a dylai cyhoeddi'r Cynllun terfynol ddilyn cyn gynted â phosibl (ar ôl i'r cyfnod her gyfreithiol o chwe wythnos ddod i ben).

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL AC ADOLYGIAD (31 HYDREF BOB BLWYDDYN AR ÔL MABWYSIADU)

- 3.2.19. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol barhau i adolygu materion a allai effeithio ar gynllunio a datblygu yn eu hardaloedd. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor yn sefydlu gweithdrefnau monitro yn unol â chanllawiau yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a bydd yn llunio Adroddiad Monitro Blynnyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.

- 3.2.20. Dangosir cynllun prosiect manylach yn Atodiad 3.

4. ATODIADAU

4.1. ATODIAD 1: RHESTR O GYRFF YMGYNGHORI PENODOL A CHYFFREDINOL

CYRFF YMGYNGHORI PENODOL (RHEOLIAD CDLL 2) GAN GYNNWYS ADRANNAU LLYWODRAETH Y DU

4.1.1. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori penodol canlynol ar **bob** cam wrth baratoi'r CDLI:

- Llywodraeth Cymru (Adran Gynllunio)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- CADW
- Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- Network Rail Infrastructure Limited (Gorllewin & Cymru) – (Eiddo)
- Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth (o ran swyddogaethau blaenorol yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol)
- Adrannau Llywodraeth y DU – Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
- Y Swyddfa Gartref
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cynllunio ac Asedau Ysbyty Athrofaol Cymru
- Cyngorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg
 - Cyngor Tref y Barri
 - Cyngor Tref Y Bont-faen gyda Llanfleiddan
 - Cyngor Tref Llanilltud Fawr
 - Cyngor Tref Penarth
 - Cyngor Cymuned Tregolwyn
 - Cyngor Cymuned Dinas Powys
 - Cyngor Cymuned Ewenni
 - Cyngor Cymuned Llancarfan
 - Cyngor Cymuned Llandochoau
 - Cyngor Cymuned Llandŵ
 - Cyngor Cymuned Llanfair
 - Cyngor Cymuned Llangan
 - Cyngor Cymuned Llan-faes
 - Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll
 - Cyngor Cymuned Pendeulwyn
 - Cyngor Cymuned Pen-llin
 - Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro
 - Cyngor Cymuned Sain Tathan
 - Cyngor Cymuned Saint-y-Brid
 - Cyngor Cymuned Sain Dunwyd
 - Cyngor Cymuned Sain Siorys a Llansanffraid Elái
 - Cyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Tresimwn
 - Cyngor Cymuned y Sili a Larnog
 - Cyngor Cymuned Llanddunwyd

- Cyngor Cymuned Gwenfô
- Cyngor Cymuned y Wig
- Awdurdodau Lleol Cyfagos
 - Cyngor Caerdydd
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngorau Cymuned Cyfagos o fewn awdurdodau lleol eraill
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
 - Cyngor Tref Pen-y-bont
 - Cyngor Cymuned Llangrallo Isaf
 - Cyngor Cymuned Merthyr Mawr
 - Cyngor Tref Pencoed
 - Cyngor Caerdydd
 - Cyngor Cymuned Sain Ffagan
 - Cyngor Cymuned Pentyrch
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
 - Cyngor Cymuned Llanharan
 - Cyngor Cymuned Llanhari
 - Cyngor Cymuned Pont-y-clun
- Gweithredwr Ffonau Symudol
- Darparwyr Gwasanaethau
 - Dŵr Cymru
 - Grid Cenedlaethol/Transco
 - Nwy Prydain
 - Swalec
 - EON UK
 - EDF Energy
 - Scottish Power
 - SSE
 - Wales & West Utilities
 - Western Power Distribution
 - Npower
 - Powergen
 - BT Group Plc
 - Virgin Media

Yn ogystal, mae CADW yn ymgynghorai statudol ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) y Cynllun ac ymgynghorir ag ef ar y camau perthnasol yn y broses.

CYRFF YMGYNGHORI CYFFREDINOL

- 4.1.2. Mae'r canlynol yn rhestr o gyrff ymgynghori cyffredinol y dylid ymgynghori â hwy ar y camau perthnasol a nodir wrth baratoi'r CDLI. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu sefydliadau a chyrff eraill sy'n dymuno cael eu cynnwys gan ymgynghori â hwy lle bo'n briodol:

CYRFF GWIRFODDOL Y MAE RHAI NEU EU HOLL WEITHGAREDDAU O FUDD I UNRHYW RAN O ARDAL YR AWDURDOD

- Gweithredu Dros Blant

- Advocacy Matters (Cymru)
- Age Concern Caerdydd a'r Fro
- Age Concern Cymru
- Cymdeithas Alzheimer
- Asthma UK Cymru
- Lifeboat Doc y Barri
- Grŵp Hanesyddol Ynys y Barri
- Cymdeithas Cadwraeth ac Ymddiriedolaeth Ddinesig Y Barri
- Cymdeithas Ceffylau Prydain
- Ymddiriedolaeth Adareg Prydain
- Busnes yn y Gymuned Cymru
- BTCV
- Cadwraeth Glöynnod Byw (Cangen De Cymru)
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Campaign for Real Ale (CAMRA)
- Ymgyrch Feicio Caerdydd
- Cyngor y Sgowtiaid Caerdydd a Bro Morgannwg
- Ffederasiwn Rhieni Caerdydd A'r Fro
- Grŵp Cyfiawnder a Heddwch Caerdydd
